# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru a Grant Thornton. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen iddo ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi'u nodi fel blaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Alastair McQuaid a Nick Selwyn, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Torfaen? 04

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn helpu pobl mewn angen? 13

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn helpu pobl i ddatblygu? 19

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 22

Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei wneud? 24


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 25

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Dorfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 27

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 29

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 30

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 32

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 33

# Pa fath o ardal yw Torfaen?

1 Mae gan Dorfaen arwynebedd daearyddol o 126 km2 a dyma'r drydedd ardal awdurdod lleol leiaf yng Nghymru, gan gyfrif am 0.6 y cant o gyfanswm arwynebedd Cymru. Mae Torfaen yn ffinio â dinas Casnewydd i'r de, sir Fynwy i'r dwyrain a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. Ceir chwe chyngor cymuned a thref yn Nhorfaen, sef Blaenafon, Croesyceiliog a Llanyrafon, Cwmbrân, Henllys, Ponthir a Phont-y-pŵl.

2 Mae'r rhan fwyaf o ran ddeheuol Torfaen bellach yn ardal drefol o amgylch cytref Tref Newydd Cwmbrân. Mae gogledd Torfaen yn fwy gwyrdd ac yn cynnwys erwau helaeth o gefn gwlad, yn enwedig ar y ffordd i Flaenafon. Pont-y-pŵl, yng nghanol y fwrdeistref sirol, yw'r ganolfan weinyddol. Gwneir y rhan fwyaf o waith gweinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o'r Ganolfan Ddinesig yno, er bod cyfleusterau yn Neuadd y Sir yng Nghwmbrân a rennir gyda Chyngor Sir Fynwy.

3 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), mae gan Dorfaen boblogaeth o 90,720, sy'n byw mewn tua 38,789 o gartrefi (amcangyfrif 2007), gan olygu mai dyma'r chweched awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru o ran ei boblogaeth. Dengys proffil oedran poblogaeth Torfaen fod 17,244 o blant (0-16 oed) yn yr ardal yn 2009 ac mai nifer y bobl 65+ oed yw 16,569, y pumed uchaf ymhlith cynghorau Cymru. Mae disgwyliad oes dynion yn Nhorfaen yr un peth â chyfartaledd Cymru, sef 77 oed, ac mae ychydig yn is na'r cyfartaledd i ferched, sef 81 oed. Mae disgwyliad oes wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y trigolion o oedran pensiwn yn cynyddu ond mae nifer y plant oedran ysgol yn gostwng. Mae rhagamcanion o'r boblogaeth yn rhagweld y bydd poblogaeth Torfaen yn gostwng i 89,157 erbyn 2033.

4 Ceir rhagor o wybodaeth am Dorfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
126 km$^2$
/////////////

poblogaeth
90,720
/////////////

17,244 yn 0-16 oed
16,569 yn >65 oed
/////////////

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cael ei reoli'n dda?

5 Ym mis Hydref y llynedd, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Adroddiad Asesu Corfforaethol yn nodi sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

6 Roedd casgliad cyffredinol yr adroddiad fel a ganlyn: mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda a threfniadau partneriaeth cadarnhaol ac mae'n cymryd camau i sicrhau y caiff ei feddylfryd strategol ei droi'n gamau gweithredu prydlon ac effeithiol mewn amgylchedd ariannol heriol. Hynny yw, caiff y Cyngor ei arwain yn dda, mae'n gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill ac mae'n gweithio'n galed i wella'r ffordd y mae'n gwireddu ei gynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau.

7 Mae sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi helpu'r sefydliad i wneud penderfyniadau anodd. Er nad yw'r Cyngor bob amser wedi llwyddo i wireddu ei gynlluniau, mae'n cymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd yn fwy cyson. Yn ddiweddar, newidiodd y Cyngor strwythur ei uwch reolwyr ac mae'n ad-drefnu ei hun er mwyn ymdrin â'r hinsawdd economi sydd ohoni.

8 Er gwaethaf y cryfderau o ran arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n rheoli perfformiad nac yn cynllunio'r gweithlu yn gyson dda – ac mae’n ymgorffori dulliau gweithredu newydd i fynd i’r afael â hyn. Mae'r Cyngor yn adolygu’r ffordd y mae’n rheoli prosiectau, ei broses ar gyfer pennu polisïau a strategaethau a'r ffordd y mae'n defnyddio cyllid ac asedau.

9 Ers i ni gynhyrchu'r Adroddiad Asesu Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi parhau â'r broses o bennu ei flaenoriaethau a'i gyfeiriad corfforaethol ar gyfer y pum mlynedd nesaf a mireinio ei waith cynllunio ariannol tymor canolig. Mae wrthi'n archwilio ffyrdd o gyflawni arbedion drwy arloesedd ac effeithlonrwydd. Mae wedi parhau â'i waith i foderneiddio ysgolion a newid y ffordd y mae'n cynllunio, yn caffael ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ac mae wedi bwrw ati ag amrywiaeth o brosiectau partneriaeth – fel y Strategaeth Ddigidol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau £9 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer Prosiect Eiddilwch Gwent i helpu pobl sy'n agored i niwed, datblygu canolfan rhannu adnoddau TG Blaenafon, gweithio tuag at wasanaeth budd-daliadau ar y cyd â Chyngor Sir Fynwy, a threfniadau i sicrhau cyfrifiaduron i ysgolion gan y sector preifat.

10 Mae'r pwysau yn cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Mae ei lythyr archwilio blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.

11 Daw'r arian y mae'r Cyngor yn ei wario yn bennaf gan y llywodraeth ganolog, sy'n darparu arian refeniw a chyfalaf. Mae arian refeniw yn talu am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a'r staff a gyflogir ganddo. Defnyddir arian cyfalaf i dalu am seilwaith fel adeiladau a ffyrdd ac i brynu darnau mawr o offer. Yn ogystal â'r arian y mae'r Cyngor yn ei gael gan y llywodraeth ganolog, mae'r Cyngor yn codi arian drwy'r dreth gyngor ac o ffioedd a thaliadau. Gall hefyd gynhyrchu rhywfaint o incwm drwy werthu tir ac adeiladau y mae'n berchen arnynt ac nad oes eu hangen mwyach.

12 Mae'n rhaid i'r Cyngor bennu cyllideb refeniw i'w rheoli o fewn yr arian sydd ar gael ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Wedyn, mae'n monitro ei wariant gwirioneddol yn erbyn hyn. Mae'r Cyngor yn disgwyl gwario £159 miliwn yn 2010-11 gyda'r gyfran uchaf o wariant ar addysg, sef bron i 41 y cant, a gwasanaethau cymdeithasol, sef bron i 25 y cant. Mae gan y Cyngor hanes da o reoli o fewn y cyllidebau a bennir ganddo, er ei fod yn rhagweld gorwariant o £1.5 miliwn ar hyn o bryd, y mae'r mwyafrif helaeth ohono yn deillio o bwysau sylweddol ym maes gofal cymdeithasol, yn arbennig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi amrywiaeth o feysydd lle y gellir gwneud arbedion gwerth cyfanswm o £550,000 a ddylai liniaru'r sefyllfa hon erbyn diwedd y flwyddyn.

13 Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a lluniodd ragamcan cyllidebol tair blynedd o 2010-11 hyd at 2012-13 ym mis Medi 2009. Ar y pryd, nodwyd bod angen sicrhau arbedion gwerth £29 miliwn yn ystod y cyfnod hwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn amcangyfrif ei fod yn wynebu diffyg cynyddol yn y gyllideb, sy'n cynyddu o £10.1 miliwn yn 2010-11 i £33.2 miliwn yn 2014-15.

14 Dim ond £26.8 miliwn, neu 18 y cant, o'r gwariant refeniw yn 2009-10 a ariannwyd gan y dreth gyngor, y bumed gyfran isaf o blith Cynghorau yng Nghymru. Mae 85 y cant o'r eiddo yn Nhorfaen o fewn bandiau treth gyngor A i D. Mae lefel treth gyngor yn Nhorfaen a'r gyfradd y mae wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn agos at gyfartaledd cynghorau Cymru. Mae ôl-ddyledion treth gyngor nas talwyd wedi cynyddu'n ddiweddar i dros £2.9 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2010. Er bod hyn yn swm mawr, mae'n cyfateb yn fras i gyfartaledd y dreth gyngor sy'n ddyledus fesul annedd perthnasol ar gyfer cynghorau yng Nghymru.

15 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn cael tua £2.240 miliwn (1.7 y cant) yn llai o arian refeniw gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real o tua £4.717 miliwn (3.58 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos lleihad pellach yng nghyllid refeniw y Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14[1].

16 Mae gan y Cyngor raglen gyfalaf o tua £32 miliwn ar gyfer 2010-11 ac mae'n rhagweld y bydd yr arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn lleihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yng Nghymru yn 2011-12 (sef toriad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14[2].

17 Bydd effaith gronnol y gostyngiadau hyn, ynghyd â ffactorau eraill sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau, megis proffil oedran uwch y boblogaeth ac effaith gymdeithasol y dirwasgiad, yn rhoi pwysau sylweddol ar gynghorau. Os caiff lefelau'r arian canolog a gaiff cynghorau eu lleihau'n sylweddol, gallai hynny effeithio'n ddifrifol ar Dorfaen. Yn arbennig, mae'r Cyngor yn cyflogi staff o dan amrywiol raglenni grant Llywodraeth y Cynulliad ac os caiff y rhaglenni hynny eu lleihau neu eu diddymu, mae hynny'n debygol o arwain at ddiswyddiadau. O dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr

1 Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad/Stats Cymru

2 Ystyr termau real yw y caiff effaith chwyddiant ei hystyried. Mae llawer o wahanol ddulliau o fesur chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus o gyfres datchwyddwyr CMC y Trysorlys.

21ain Ganrif, mae’r Cyngor wedi cyflwyno cynnig strategol am gyllid i Llywodraeth y Cynulliad. Gallai newidiadau i feini prawf y grant o ran darparu arian cyfatebol effeithio ar yr hyn y gall y Cyngor ei gyflawni o dan y cynllun.

18 Mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn cymryd camau i ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â thoriadau ariannol, er enghraifft, mae'r gyllideb bresennol yn cynnwys £1 filiwn i ariannu prosiectau trawsnewid i ategu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a allai arwain at arbedion refeniw yn y dyfodol. Mae aelodau yn arwain y blaen wrth bennu cyllideb a blaenoriaethau gwella y Cyngor. O ystyried ffigur setliad Llywodraeth y Cynulliad, mae’r Cyngor yn cydnabod y bydd y broses hon yn cynnwys dewisiadau anodd a gwleidyddol sensitif ac mae aelodau wedi bod yn ystyried gwahanol senarios er mwyn paratoi ar gyfer y penderfyniadau hyn.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

## Cynllunio i wella'r hyn sydd bwysicaf

19 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i sicrhau y gall cynghorau bob amser ddangos bod yr hyn a wnânt yn adlewyrchiad amlwg o'r hyn sydd bwysicaf i bobl leol a'i fod yn arwain at wella bywydau pobl. Er mwyn sicrhau bod cynghorau yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i'r pethau pwysicaf, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau a sut y byddant yn mynd ati i wneud hynny. Mae hefyd yn ofynnol i gynghorau bennu 'Amcanion Gwella' sy'n ategu'r prif flaenoriaethau maent yn anelu at eu gwella bob blwyddyn, ac wedyn i gyflwyno adroddiad ar eu cyflawniadau.

20 Nodwyd y chwe mater allweddol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi penderfynu y mae angen iddo ganolbwyntio ar eu gwella fel amcanion gwella ar gyfer 2010-11. Mae'r Cyngor wedi penderfynu canolbwyntio ar:

- helpu pobl fregus i aros yn eu cartrefi;
- gwella'r ffordd y caiff grantiau cyfleusterau i'r anabl eu cyflwyno;
- gwella mynediad i addysg Gymraeg;
- cynyddu lefelau ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff;
- rhoi cyfleoedd i bobl wella eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth; a
- gwella gwasanaethau cynllunio[3].

21 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Gwella cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Ym mis Mehefin 2010 y cyhoeddodd y Cyngor yr amcanion hyn yn y flwyddyn gyntaf hon yn y ddogfen 'Cynllun Gwella Tua'r Dyfodol Torfaen 2010-11'. Ym mis Awst 2010, dosbarthwyd yr Amcanion Gwella i bob cartref yn Nhorfaen gan ddefnyddio cylchlythyr am ddim y Cyngor, *Torfaen Talks*. Maent hefyd wedi'u cynnwys yn Niweddariad Cynllun Corfforaethol 2010-11 y Cyngor, gan anelu at fodloni gofynion Llywodraeth y Cynulliad i'r Cyngor gyhoeddi dogfen gyhoeddus erbyn diwedd mis Hydref yn nodi sut y mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb erbyn diwedd mis Tachwedd. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r crynodeb ar ei wefan ac mae hefyd wedi'i ddosbarthu i gartrefi ym mhapur newydd am ddim y Cyngor Torfaen Talks ym mis Tachwedd 2010.

22 Er mwyn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth, dylai'r Cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn llawer cynharach y flwyddyn nesaf, a dylai gyhoeddi ei adroddiad o'i gyflawniadau erbyn y dyddiad terfyn statudol, sef diwedd mis Tachwedd.

23 Gan fod y Cynllun Corfforaethol presennol yn cwmpasu blwyddyn olaf cylch strategol, mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ailystyried ac yn ailganolbwyntio ei flaenoriaethau ar gyfer y cylch nesaf o gynlluniau gwella a fydd hefyd yn adlewyrchu ymgynghoriadau diweddar â'r gymuned a chyfyngiadau ariannol. Bydd hefyd yn cyflwyno adroddiad yn nodi i ba raddau y mae wedi llwyddo i gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd ganddo iddo'i hun. O ganlyniad, gallai'r Amcanion Gwella a bennwyd ar gyfer 2010 newid yn 2011 pan ddaw'r gofynion cyfreithiol llawn sy'n gysylltiedig ag Amcanion ac Adroddiadau Gwella i rym. Felly, mae'r Cyngor wedi trin y flwyddyn gyfredol fel cyfle i ddysgu.

3 Gweler Atodiad 5 am ragor o fanylion.

24 Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno â'r sefydliadau partner cynllunio cymunedol sy'n gwasanaethu'r ardal, megis iechyd a'r heddlu, sut y byddant yn cydweithio mewn perthynas â blaenoriaethau Cymru gyfan Llywodraeth y Cynulliad a pha wahaniaethau y byddant yn eu gwneud i bobl yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r wybodaeth hon, gan gynnwys Amcanion Gwella a pherfformiad cyfredol y Cyngor, wedi'i nodi yn y Cynllun Corfforaethol, wedi'i chysylltu â 10 o flaenoriaethau strategol a 29 o ganlyniadau. Mae'r blaenoriaethau a'r canlyniadau yn ategu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor o sicrhau bod Torfaen yn 'lle diogel, ffyniannus a chynaliadwy lle mae gan bawb y cyfle i wneud eu gorau', ac maent yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd dinasyddion wrth y Cyngor oedd bwysicaf iddynt hwy wrth ymgynghori â hwy. Maent hefyd yn adlewyrchu'r Strategaeth Gymunedol.

25 Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun Corfforaethol yn dangos sut y cafodd yr holl randdeiliaid y gallai fod ganddynt ddiddordeb eu cynnwys, er enghraifft, busnesau lleol. Er bod manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth wedi'u cynnwys yn y cynllun, nid yw'n nodi'n glir sut y gall pobl sydd â diddordeb gymryd rhan a lleisio eu barn yn benodol ar bennu amcanion gwella yn y dyfodol. Fodd bynnag, estynnodd crynodeb y Cynllun Tua'r Dyfodol, a ddosbarthwyd i bob cartref, wahoddiad i bobl gymryd rhan drwy ymaelodi â Phanel Pobl Torfaen, sef fforwm y Cyngor ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Er nad ymgynghorodd y Cyngor yn benodol ar ei Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11, roeddent yn seiliedig ar y Cynllun Corfforaethol presennol a Strategaeth Gymunedol Torfaen yr ymgynghorwyd yn helaeth ar y ddau ohonynt wrth eu llunio a'u mabwysiadu.

26 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys datganiad ar sut y mae'n bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r broses o roi'r CIP ar waith wedi'i chysylltu'n amlwg â chanlyniadau a rennir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB), cynlluniau gwella gwasanaethau, cynlluniau gwaith timau a chynlluniau gwaith unigolion; wedi'i hategu gan gyllidebau a pholisi rheoli risg ar lefel prosiect ac mae'n adlewyrchu 'llinyn aur' y Cyngor yn gryf.[4] Mae pob un o'r Amcanion Gwella wedi'i ategu gan gamau gweithredu arfaethedig a mesurau o lwyddiant, ac mae'r Cynllun Tua'r Dyfodol yn nodi'n glir pa faes gwasanaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Amcanion Gwella. Mae'r wybodaeth yn y cynllun wedi'i nodi'n glir ac wedi'i chyflwyno'n dda. Mae cysylltiadau â materion fel partneriaethau, cydraddoldebau, cynaliadwyedd a'r iaith Gymraeg yn amlwg. Nodir Amcanion Gwella gyda chyswllt i'r Cynllun Tua'r Dyfodol sy'n nodi'n glir pam y'u dewiswyd. Mae’r cynllun yn nodi themâu blaenoriaeth, canlyniadau bwriadedig, mesurau o lwyddiant a gweithgareddau arfaethedig,. Y flwyddyn nesaf, gallai gwybodaeth ddangos yn glir sut mae amcanion gwella a chamau gweithredu cysylltiedig yn integreiddio â gweithgareddau ehangach. Byddem hefyd yn disgwyl i gynlluniau gwasanaeth, sydd wrthi'n cael eu drafftio ar hyn o bryd, ddangos sut mae gwasanaethau yn helpu i gyflawni'r Amcanion Gwella.

4 Y broses o ran sut y mae gwaith unigolyn yn cyfrannu at waith y tîm; sut mae gwaith y tîm yn cyfrannu at y maes gwasanaeth; a sut y mae'r maes gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

## Dangos sut mae pobl yn cael budd o'r hyn a wna'r Cyngor

27 Mae angen i'r Cyngor ddangos yn gliriach sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella fel y bwriedir. Mae'r Cyngor wedi nodi yn ei gynllun tua'r dyfodol sut y mae ei Amcanion Gwella yn gysylltiedig â chynlluniau a chanlyniadau strategol presennol, ac mae wedi nodi pam y dewisodd yr amcan, sut y mae'n bwriadu ei gyflawni a sut y bydd yn mesur llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau sydd gan y Cyngor ar waith hyd yma bob amser yn dangos yn glir a fydd unrhyw un yn well eu byd os bydd yn cyflawni ei Amcanion Gwella, a hynny am fod mesurau weithiau yn ymwneud â chwblhau cam gweithredu yn hytrach na chyflawni canlyniad a hefyd am nad oes gwybodaeth am lefel perfformiad bresennol y Cyngor na tharged gwella presennol y Cyngor bob amser ar gael. Mae’r Cyngor wrthi’n datblygu ei ail Gynllun Corfforaethol pum mlynedd a fydd yn helpu i fynd i’r afael â’r mater hwn.

28 Adolygwyd y mesurau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio i ddangos a yw ei Amcanion Gwella yn llwyddiannus, gan edrych hefyd ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi dangos tystiolaeth o welliant yn y gorffennol. Ar y cyfan, yn gyffredin â llawer o gynghorau eraill, mae mesurau perfformiad fel arfer yn seiliedig ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) o berfformiad nad ydynt bob amser yn dangos a yw pobl leol yn cael gwasanaethau sy'n darparu gwerth am arian neu a ydynt yn well eu byd. O ganlyniad, prin yw'r wybodaeth sy'n nodi a yw'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud o fudd i unrhyw un; profiadau defnyddwyr o dderbyn gwasanaethau, faint maent yn ei gostio a pha un a yw pobl yn fodlon.

29 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu gwell mesurau sydd wedi'u cysylltu'n amlwg â chanlyniadau yn ogystal â datblygu gwybodaeth gadarn am gost fesul budd a chostau uned. Dylai hefyd sicrhau y caiff y dull o bennu Amcanion Gwella, sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, ei gymhwyso i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar amrywiaeth llawn swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor.

30 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydweithredu â phartneriaid lleol yn Nhorfaen a hefyd â chynghorau cyfagos er mwyn gwella profiadau pobl o wasanaethau a hefyd i wneud arbedion. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ymgynghori'n eang ar flaenoriaethau lleol ac wedi datblygu Strategaeth Gymunedol ar y cyd sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud gyda'i gilydd. Fodd bynnag, gall trefniadau cydweithredu gymryd amser hir a chryn ymdrech i'w rhoi ar waith, ac ni allant bob amser ddangos eu bod yn arwain at y buddiannau bwriadedig. Mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid wneud rhagor o waith i ddangos sut y mae'r partneriaethau hyn o fudd i'r cyhoedd a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan.

31 Fel pawb arall, nid oes gan y Cyngor yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno am effaith y dirwasgiad ar y galw am ei wasanaethau gan bobl leol, a sut y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar ei gynlluniau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei allu i ragweld galw, pennu targedau, monitro cynnydd, yn ogystal â mesur llwyddiant a chyflwyno adroddiadau arno. Gall roi'r dull hwn ar waith wrth reoli gwelliant yn ehangach, nid dim ond mewn perthynas â'i Amcanion Gwella. Mae'r Cyngor yn gwella sut mae'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth i'w helpu i sicrhau bod

penderfyniadau pwysig yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddarperir eisoes, pa mor dda y mae'n gweithio, faint mae'n ei gostio a beth arall sydd ei angen. Mae'r Cyngor wedi dechrau gwneud defnydd effeithiol o system rheoli perfformiad i Gymru gyfan, Ffynnon[5], i helpu i reoli a dangos gwelliannau i bobl, ac mae'n casglu mwy a mwy o wybodaeth am foddhad y cyhoedd â gwasanaethau.

32 Mae'n bwysig nid yn unig bod gan y Cyngor wybodaeth am y pethau priodol, ond hefyd bod y wybodaeth honno'n gywir. Canfu'r archwiliad o systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli a chyflwyno adroddiadau ar ei ddangosyddion perfformiad allweddol yn 2010 gan Grant Thornton fod pob un o'r 38 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC), y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno adroddiad ar berfformiad yn eu herbyn, yn gywir i raddau helaeth, er bod yn rhaid cywiro pedwar dangosydd oherwydd iddynt ddod o hyd i rai gwallau. Mae perfformiad wedi gwella ers y llynedd lle bu'n rhaid diwygio bron i ddwy ran o dair o ddangosyddion.

33 Er i'r archwiliad o'r DSCau nodi gwelliant wrth ymdrin â'r gyfradd gwallau, codwyd rhai pryderon parhaus mewn perthynas ag ansawdd y wybodaeth am berfformiad gan wasanaeth archwilio mewnol y Cyngor a hefyd gan AGGCC. Yn ogystal â'r archwiliad o'r DSCau, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o gyflwyniad tystiolaeth y Cyngor i Lywodraeth y Cynulliad i ategu'r ffaith ei fod wedi cyflawni targedau ei Gytundeb Gwella mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud defnydd effeithiol o Ffynnon i ddangos tystiolaeth o welliant ond nid oedd nifer fach o dargedau yn ddigon heriol ac roedd angen i beth tystiolaeth o'r Dangosyddion Perfformiad (DPau) cenedlaethol gael ei hategu gan ddangosyddion lleol. Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau i wella cywirdeb ei wybodaeth am berfformiad.

34 Yn olaf gwnaethom werthuso pa mor dda y mae cynlluniau'r Cyngor yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Yn gyffredinol, gan nad mentrau newydd yw Amcanion Gwella'r Cyngor, disgwylir iddynt gael eu hariannu a'u rheoli drwy gyllidebau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i adnoddau fod yn benodol er mwyn sicrhau na fydd toriadau ariannol gan y Llywodraeth yn ei atal rhag gwneud y cynnydd y mae am ei wneud yn ei feysydd blaenoriaeth. Felly, mae angen iddo wella ei waith cynllunio ariannol o fewn y cyd-destun newydd hwn ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn adolygu cynlluniau'r Cyngor wrth iddynt ddatblygu, byddwn yn cyflwyno sylwadau o ran pa un a fyddant yn cefnogi ei ymdrechion i wneud yn well a byddwn hefyd yn ystyried a yw'r Cyngor mewn gwirionedd wedi gwneud y gwelliannau a fwriadwyd ganddo ar gyfer pobl leol.

5 Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwasanaethu pobl yn dda?

35 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yn Nhorfaen, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae cynghorau yn eu darparu i ddinasyddion. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

36 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi ystyried sut mae'r Cyngor wedi dewis ei Amcanion Gwella ac wedi'u datblygu yn unol â'r agweddau hyn, a sut y mae'n perfformio hyd yn hyn mewn perthynas â hwy er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor, ac eraill, mewn sefyllfa well i ddeall faint mae perfformiad wedi gwella. Rydym yn cydnabod fod hon yn flwyddyn drawsnewid wrth i'r Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru roi gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 ar waith. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei ymagwedd tuag at Amcanion Gwella a chroesawodd adborth o ran sut y gall eu gwella ar gyfer 2011.

37 Nid yw'r adroddiad hwn yn anelu at roi darlun llawn na chytbwys o berfformiad y Cyngor ar draws yr amrywiaeth o swyddogaethau y mae'n ymgymryd â hwy a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar feysydd penodol y mae'r Cyngor wedi nodi ei fod am eu gwella, pam ei fod wedi dewis eu gwella, sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hynny a sut y bydd yn rhoi cyfrif am yr hyn a gyflawnir ganddo.

38 Mae'r DSCau y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno adroddiad arnynt yn tueddu i ganolbwyntio ar faint o weithgarwch a geir yn hytrach nag ansawdd y canlyniadau. Felly, nid ydynt o reidrwydd yn sail dda ar gyfer dangos bod pobl leol yn well eu byd o ganlyniad i'r hyn a wna'r Cyngor, neu ar gyfer cymharu pa mor dda y mae gwahanol gynghorau yn gwasanaethu pobl. Fodd bynnag, dyma'r brif ffynhonnell o ddata cymharol sydd ar gael i'r cyhoedd ar berfformiad cynghorau yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau gyflawni gwelliant parhaus yn erbyn pob un o'r dangosyddion. Mae gostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus yn golygu y bydd angen i bob cyngor wneud penderfyniadau clir am flaenoriaethau, a allai arwain at berfformiad is mewn rhai meysydd. Dylai'r Cyngor nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn, i sicrhau y cynhelir lefelau derbyniol o wasanaeth.

39 Ar hyn o bryd, mae canlyniadau'r Cyngor fel y'u mesurir yn ôl DSCau, yn amrywiol o ran gwelliant ac o ran perfformiad cymharol o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Serch hynny, dangosodd rhai dangosyddion well perfformiad yn 2009-10. Mae'r rhain yn cynnwys compostio, tai fforddiadwy, pobl dros 65 oed yn cael help yn eu cartrefi eu hunain a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs). Cafwyd rhai gostyngiadau mewn perfformiad o ran dangosyddion gwastraff/ailgylchu, eiddo gwag, cyfraddau troseddu, addysg, adeiladu cartrefi newydd ac ansawdd tai.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn helpu pobl mewn angen?

40 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

41 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn caiff cynllun arolygu ac adolygu unigol ei lunio ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

42 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd sydd â'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad presennol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

43 Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i sicrhau y caiff pob un sy'n edrych am help eu cysylltu'n gyflym ac yn briodol â gwasanaethau. Mae'n rhedeg Canolfan Gyswllt sy'n darparu amrywiaeth o wybodaeth mewn sawl fformat i helpu pobl i gael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'n darparu mynediad ac ymyriadau amserol i blant, eu teuluoedd ac i oedolion sy'n agored i niwed. Er bod llwythi achosion uchel o fewn yr adran Gwasanaethau Plant wedi cael effaith ar berfformiad cyffredinol, mae'r Cyngor wedi cynnal safonau da o ran rheoli gofal ac adolygu mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r Cyngor yn asesu'r holl ofalwyr hysbys, gan gynnwys gofalwyr ifanc, ac yn gweithio gyda phobl ag amrywiaeth o anghenion gan sicrhau y gall gynnig ymyriadau sy'n atal argyfyngau, yn ogystal â gweithio gyda phobl ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei ffocws ar sicrhau canlyniadau i'r bobl y mae'n ceisio eu helpu. I blant, mae hyn yn golygu gwella cyflymder asesiadau craidd ac ansawdd y penderfyniadau a wneir er mwyn lleihau'r gyfradd uchel o atgyfeiriadau a geir ar hyn o bryd. I ddefnyddwyr sy'n oedolion a gofalwyr, dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau yn cyfateb i asesiadau o anghenion, a bod canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn gwella o ganlyniad i hynny.

44 Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i bobl leol. Mae wedi cadw amrywiaeth bach o wasanaethau gan ddarparwyr mewnol, gan weithio'n helaeth hefyd gyda'r sector preifat a'r sector gwirfoddol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i oedolion. Mae'r Cyngor yn helpu'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau cymunedol. Mae wedi lleihau'r angen am ofal preswyl ac wedyn cynyddu'r lefelau cymorth i oedolion yn y gymuned. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar roi cymorth i blant a theuluoedd yn y gymuned ac wedi llwyddo i ddatblygu a hyrwyddo opsiynau Taliadau Uniongyrchol i deuluoedd. Caiff pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal gan y Cyngor eu helpu yn eu cymunedau eu hunain drwy ofal maeth a, lle y bo'n briodol, gwasanaethau byw â chymorth.

45 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bylchau ac opsiynau cyfyngedig i ddiwallu anghenion unigol mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn arbennig mewn gwasanaethau gofal seibiant i oedolion ag anghenion cymhleth a gwasanaethau i'r rai ar gamau cynnar demensia. Mae rhagor o waith i'w wneud hefyd gyda gofalwyr i ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddiwallu eu hanghenion yn well.

46 Gall y Cyngor ddangos ei fod yn gweithio'n effeithiol i wella bywydau pobl. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed yn dda, er bod rhai trefniadau yn dal i ymsefydlu. Mae gwasanaethau yn canolbwyntio ar hyrwyddo trefniadau byw'n annibynnol drwy ailalluogi ac ymyriadau byrdymor. Mae'r Cyngor yn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed drwy drefniadau ansawdd da gyda'r sector gwirfoddol. Mae'n gweithio'n dda gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd i sicrhau bod eu safbwyntiau yn llywio gwerthoedd gwasanaethau cymdeithasol. Mae meysydd y dylai'r Cyngor eu datblygu ymhellach yn cynnwys gwella amseroldeb prosesau diogelu plant, galluogi mwy o bobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a defnyddio Taliadau Uniongyrchol a thechnoleg gynorthwyol i feithrin annibyniaeth i oedolion yn y gymuned.

47 Mae gallu ac adnoddau o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fater y mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin ag ef. Mae ganddo hanes da o gydnabod y cyfraniad a wneir gan staff i helpu plant, teuluoedd ac oedolion. Mae'n annog gwaith i ddatblygu'r gweithlu a gwella lefelau sgiliau ar draws y sector gofal cymdeithasol drwy ei Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae dibyniaeth ar staff asiantaeth wedi lleihau wrth i'r Cyngor ddefnyddio swyddi ychwanegol i gynyddu adnoddau, ond mae galw cynyddol, yn arbennig ym maes Gwasanaethau Plant, wedi mynd â'r adnoddau ychwanegol a ryddhawyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu trefniadau rheoli ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Ar hyn o bryd, nid yw systemau rheoli perfformiad yn gadarn ac mae'n bosibl bod gwybodaeth wael am berfformiad yn tanseilio penderfyniadau a wneir. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo wybodaeth rheoli perfformiad gywir i ategu penderfyniadau effeithiol.

48 Mae gwasanaethau cynllunio a chomisiynu yn faes o gryfder. Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda mewn partneriaeth, yn arbennig â gwasanaethau iechyd i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol i blant, eu teuluoedd ac i oedolion. Mae wedi datblygu fframwaith ansawdd a ffioedd cadarn ac mae'n gweithio'n dda i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd â gwasanaethau iechyd. Mae dulliau rheoli contract ar gyfer gwasanaethau oedolion yn rhagweithiol ac mae'r Cyngor yn rheoli adnoddau yn unol â chyllidebau. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor adeiladu ar gyflawniadau drwy gomisiynu amrywiaeth ehangach o wasanaethau, gan gynnwys helpu pobl ifanc i baratoi'n effeithiol ar gyfer addysg a gwaith a helpu oedolion ag anghenion cymhleth i fyw'n annibynnol. Nid yw'n glir eto sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ei fuddsoddiad ym maes gwasanaethau ataliol o ystyried y galw cynyddol a'r lefelau is o adnoddau sydd ar gael.

49 Mae blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn darparu strwythur ar gyfer cynllunio perfformiad a chynllunio busnes yn effeithiol ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gydag amcanion penodol i gefnogi oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Mae hyn yn annog arloesedd wrth gefnogi annibyniaeth. Roedd adroddiad yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn dilyn marwolaeth Victoria Climbié yn Lloegr yn cynnwys argymhelliad y dylai prif weithredwyr ac aelodau arweiniol awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau am wasanaethau

cymdeithasol sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu cynnwys yn benodol yn rhestr eu hawdurdod o flaenoriaethau a'i gynlluniau gweithredol. Nid oes gan y Cyngor Amcan Gwella mewn perthynas â gwasanaethau plant ond mae'n rhoi blaenoriaeth briodol iddynt yn ei gynlluniau.

50 Mae'r Cyngor yn hyrwyddo agenda foderneiddio glir er mwyn sicrhau gwerth gorau a gwasanaethau o ansawdd. Mae'r Cyngor wedi cydnabod buddiannau cydweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac i'r Cyngor yn gyffredinol. Gallai'r strwythur rheoli ar y cyd hwn arwain at gyfleoedd sylweddol i'r ddau bartner, gan alluogi iddynt gyfuno adnoddau sylweddol a chydweithredu fwy. Gall rolau rheoli deuol hwyluso newidiadau cadarnhaol ac arloesedd a chreu diwylliant perchenogol. Fodd bynnag, heb drefniadau llywodraethu cadarn, gallant arwain at achosion o wrthdaro buddiannau a thensiynau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyn ac mae'n parhau i werthuso'r strwythur rheoli ar y cyd ag Iechyd. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cymorth priodol gan y tîm rheoli corfforaethol a gwleidyddion. Mae aelodau etholedig, boed yn y Cabinet neu'r Pwyllgor Craffu, yn cydweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a rheolwyr.

51 Mae cynghorau yn gweinyddu'r budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Yn gyffredinol, mae taliadau budd-daliadau anghywir yn digwydd pan fydd y cyngor naill ai wedi talu gormod o fudd-dal neu pan na fydd yr hawliwr wedi gwneud cais priodol. Rhaid i gynghorau sicrhau y gwneir cyn lleied â phosibl o ordaliadau tra'n parhau hefyd i hyrwyddo proses gadarn ond sensitif ar gyfer adennill dyledion. Yn 2008, nododd DWP welliannau sylweddol yn safon gyffredinol gweinyddu'r broses o dalu budd-daliadau, ond nododd fod cynnydd wedi bod o ran nifer yr achosion o ordalu budd-daliadau, yn deillio'n benodol o wallau gan gwsmeriaid. Yn ôl ystadegau DWP, yn 2008-09, nododd y Cyngor fod 4.5 y cant o'r budd-daliadau fel gordaliadau ac adenillodd 28 y cant o'r ddyled gronedig. Cyfartaleddau Cymru oedd 4.9 y cant a 22 y cant.

52 Asesodd Swyddfa Archwilio Cymru y systemau ar gyfer atal ac adennill gordaliadau. Daethom i'r casgliad er bod y Cyngor wedi gordalu llai o fudd-daliadau nag a wnaed ganddo yn y gorffennol, ei fod yn adennill cyfran is o'r arian hwnnw. Er bod gordaliadau wedi lleihau, mae gan y Cyngor agwedd fwy hael tuag at ad-dalu sydd wedi arwain at sefyllfa lle yr adenillwyd £281,000 yn llai o ddyled yn ystod y flwyddyn na'r flwyddyn flaenorol. Er bod y broses o adennill dyledion yn cael ei gweinyddu'n foddhaol a bod cyfanswm lefelau'r dyledion a adenillir yn sefydlog, mae'r cytundebau ad-dalu a ddefnyddir ar gyfer adennill dyledion yn ystod y flwyddyn yn hael gan ganiatáu i rai pobl ad-dalu dros gyfnodau hwy. Gwnaethom argymell y dylai'r Cyngor annog cwsmeriaid i ddarparu gwybodaeth er mwyn cyfrifo eu hawl sylfaenol er mwyn lleihau cyfanswm y budd-daliadau a gaiff eu gordalu; cynyddu cyfanswm y budd-daliadau a ordalwyd a gaiff ei adennill drwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o opsiynau adennill; ac adolygu cytundebau ad-dalu, yn arbennig yn dilyn newid mewn amgylchiadau.

53 O fis Rhagfyr 2010, bydd Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor hefyd yn cymryd cyfrifoldeb rheoli am Wasanaethau Budd-daliadau Cyngor Sir Fynwy fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth estynedig rhwng y ddau gyngor. Mae Torfaen wedi darparu cymorth rheoli a chymorth gweithredol i wasanaeth Budd-daliadau Sir Fynwy ers sawl blwyddyn ac mae'r ddau gyngor wrthi erbyn hyn yn datblygu gwasanaeth cyffredin. Dylai gwasanaeth Budd-daliadau a rennir gael ei gyflwyno.

54 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydgysylltu gwaith asesu mewn cynghorau â'n gwaith ym maes iechyd. Rydym yn ystyried pa mor dda y mae'r Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (ABHB), sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd ar draws ardal sy'n cynnwys Torfaen a'r cynghorau cyfagos. Mae'r cynghorau, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid lleol eraill yn cydweithio i gydgysylltu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl agored i niwed. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (ABHB) yn gorff cymharol newydd a ddisodlodd y strwythur blaenorol a oedd yn cynnwys pum Bwrdd Iechyd Lleol llai ac Ymddiriedolaeth. Mae'r cydberthnasau rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum cyngor y mae'n eu cwmpasu yn esblygu wrth i strwythurau a swyddi newydd o fewn ABHB ymsefydlu ac wrth i'r trefniadau ar gyfer cydweithio barhau i ddatblygu. Mae ein gwaith yn mynd rhagddo a chyflwynir adroddiad arno yn 2011.

55 Yn ddiweddar, enillodd y Cyngor ynghyd â naw cyngor partner yn ne-ddwyrain Cymru un o wobrau rhagoriaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Sefydlwyd Rhaglen Comisiynu Plant Prosiect Gwella ar y Cyd De-ddwyrain Cymru (SEWIC) i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sicrhau gwerth am arian gwell a chynyddu'r dewis o leoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Sefydlwyd Uned Gomisiynu Ranbarthol a noda'r uned honno ei bod wedi arbed dros £500,000 hyd yn hyn.

## Amcan Gwella - Helpu pobl fregus i aros yn eu cartrefi

56 Gall gofal o ansawdd da yn y gymuned wella lles pobl a lleihau'r angen i bobl fynd i'r ysbyty neu i gartrefi gofal. Gall fyrhau'r cyfnod y mae'r rheini y mae angen iddynt fynd i'r ysbyty yn ei dreulio yno, drwy sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fynd adref neu eu bod yn cael gofal priodol os na allant wneud hynny. Fel arall, gellir achosi oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng yr ysbyty a'r gymuned a gall gwelyau mewn ysbytai gael eu blocio.

57 Yn Nhorfaen, cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd yn 2009-10 oedd 9.36. Mae hyn wedi gwella o 38.48 yn 2006-07 ond mae'n parhau'n uchel o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, gan roi'r Cyngor yn y 19eg safle allan o 22. Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) sy'n cael cymorth gan yr awdurdod mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd ar 31 Mawrth 2010 oedd 21.06, sydd fwy neu lai'n cyfateb i gyfartaledd Cymru. Nifer y bobl 65 oed a throsodd sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd yn ystod 2009-10 oedd 119.5, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd cynghorau Cymru. Fodd bynnag, yn eu harchwiliad o DPCau, nododd archwilwyr wendidau o ran y gweithdrefnau dilysu ar gyfer gwybodaeth a gaiff ei chofnodi ar y gronfa ddata Gofal Cymunedol sy'n ategu'r dangosyddion perfformiad hyn. Gwnaethant argymell gwelliannau i'r gweithdrefnau dilysu er mwyn sicrhau cywirdeb y DPau.

58 Mae'r Amcan Gwella 'helpu pobl fregus i aros yn eu cartrefi' wedi'i gysylltu'n amlwg â'r Strategaeth Gymunedol a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (HSCWB) y mae'r Cyngor wedi cytuno arni â sefydliadau partner a chynrychiolwyr cymunedol, yn ogystal â CIP y Cyngor. Ar gyfer 2010-11, mae gweithgarwch yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer rhoi Prosiect Eiddilwch Gwent ar waith. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan arweiniol mewn partneriaeth â chynghorau cyfagos, sef Prosiect Eiddilwch Gwent, sydd newydd sicrhau cyllid cenedlaethol ac sy'n anelu at wella cymorth cymunedol, ehangu annibyniaeth a hefyd leihau nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty a'r achosion o oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Byddwn yn monitro'r prosiect wrth iddo ddatblygu er mwyn nodi arfer da ac asesu a yw'n cyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr a gofalwyr. Ochr yn ochr â'r mentrau hyn, mae angen i'r Cyngor annog mwy o bobl i ddefnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol sy'n rhoi mwy o gyfle i bobl leisio barn am y ffordd y caiff ei gofal ei ddarparu. Ar hyn o bryd, mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r cynllun hwn yn isel iawn yn Nhorfaen o gymharu â gweddill Cymru. Cyfradd yr unigolion fesul 10,000 o gleientau sy'n oedolion (18+ oed) sy'n cael cymorth yn y gymuned ac sy'n cael taliad uniongyrchol oedd 218.90 yn 2009-10. Roedd hyn llawer yn is na chyfartaledd Cymru, sef 363.71, ac yn golygu mai perfformiad y Cyngor oedd y pumed isaf.

59 Gan mai ffocws arfaethedig y gweithgarwch yw sefydlu'r prosiect er mwyn darparu buddiannau tymor hwy yn y dyfodol, mae'r camau gweithredu i gefnogi'r amcan a restrwyd ar gyfer eu cwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf yn ymwneud fwy â phrosesau'r prosiect na'r ffordd y mae gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn fregus. Mae'r mesurau o lwyddiant yn cynnwys cymysgedd o gwblhau'r camau gweithredu arfaethedig a dau DP Cenedlaethol, yr unig ddangosyddion lle y cynhwysir llinell sylfaen o berfformiad cyfredol. Mae'r Cyngor eisoes yn rhagori ar ei darged ar gyfer 2010-11 ar gyfer y ddau DP. Nid oes unrhyw fesurau lleol a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ddangos y cysylltiad rhwng gweithgarwch o fewn y prosiect a pha un a yw pobl yn cael cymorth i aros gartref, ac nid oes unrhyw fesurau ansawdd na boddhad mewn perthynas â defnyddwyr na gofalwyr. Felly, nid yw'n bosibl penderfynu pa fuddiannau i bobl sy'n deillio o'r gweithgarwch.

## Amcan Gwella - Gwella'r ffordd y byddwn yn cyflwyno ein grantiau cyfleusterau i'r anabl

60 Arolygodd Swyddfa Archwilio Cymru wasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl[6] y Cyngor yn 2009 a daeth i'r casgliad nad oedd y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth yn effeithiol. Cytunodd y Cyngor i gyfres o argymhellion a lluniodd gynllun gweithredu i wella'r gwasanaeth.

61 Ers ein harolygiad, gwaethygodd perfformiad y Cyngor mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCAau). Er bod nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu GCAau wedi gwella o 412 diwrnod yn 2006-07 i 206 diwrnod yn 2008-09, cynyddodd eto i 273 diwrnod yn 2009-10.

62 Yn 2009-10, cymerodd y Cyngor gyfartaledd o 17 diwrnod calendr i gyflawni gwaith addasu cost isel mewn anheddau preifat lle na ddefnyddir y broses GCA. Dyma oedd y pedwerydd perfformiad cyflymaf o blith cynghorau Cymru.

6 Mae Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn grant a roddir gan gynghorau lleol i helpu tuag at gost addasu cartref i alluogi person hŷn, person sy'n agored i niwed neu berson anabl i barhau i fyw yno. Telir grant pan fydd y cyngor o'r farn bod angen gwneud newidiadau i ddiwallu eu hanghenion, a bod y gwaith hwnnw yn rhesymol ac yn ymarferol.

63 Nod yr Amcan Gwella yw helpu i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd gan arolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac mae hefyd yn cysylltu ag amcanion Strategol Cymru'n Un Llywodraeth y Cynulliad, y Strategaeth Gymunedol a'r Strategaeth HSCWB, a CIP y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi camau gweithredu i gyflawni ei Amcan Gwella a gwella'r gwasanaeth GCA. Fodd bynnag, nid yw'r tri dangosydd perfformiad cenedlaethol a ddefnyddir fel mesurau o lwyddiant yn dangos yn glir sut y bydd unrhyw un yn cael budd ac nid ydynt yn mesur gwerth am arian na boddhad defnyddwyr. Mae dau ohonynt yn fesurau o weithgaredd ac mae'r trydydd yn fesur o amser prosesu. Ni phennwyd targed ar gyfer 2010-11 yn erbyn un o'r DPau, sef y DP ar gyfer cleientiaid 18-64 oed sy'n cael cymorth yn y gymuned. Mae'r mesur hefyd yn cyfeirio at waith a wnaed drwy Cefnogi Pobl yn hytrach na GCAau ac heb unrhyw gamau gweithredu penodol wedi'u rhestru i wella'r gwasanaeth tai â chymorth, nid yw'n glir sut mae hyn yn mesur cynnydd mewn perthynas â'r amcan gwella GCA. Bydd angen i'r Cyngor ddatblygu mesurau sy'n cysylltu'n gliriach â chanlyniadau, a phennu targedau ar gyfer gwella, er mwyn iddo ddangos bod defnyddwyr y gwasanaeth GCA yn well eu byd.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn helpu pobl i ddatblygu?

64 Mae Estyn, sef Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, yn arolygu pa mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan Estyn raglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn ysgol megis meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Rydym yn gweithio gydag Estyn i asesu pa mor dda y mae'r Cyngor yn cefnogi'r holl wasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu.

65 Perfformiad Torfaen o ran cyfradd presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn 2009 oedd 93.1 y cant, ychydig yn is na chanolbwynt cynghorau Cymru. O ran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn 2010, roedd y Cyngor yn y 19fedsafle gwaethaf allan o 22 o gynghorau, ar y cyd â chyngor arall, gyda chyfradd presenoldeb o 90.5 y cant. Mae perfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwaethygu rhwng 2007 a 2010.

66 Cyrhaeddiad y dangosydd pynciau craidd yw canran yr holl ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth wedi'u cyfuno, a daw'r wybodaeth hon o ganlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad gan ysgolion. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn CA2 wedi gwella ers 1999. Yn 2010, 83.5 y cant oedd y ganran, sef yr uchaf o blith cynghorau Cymru. Canran y disgyblion yn cyflawni'r DPC yng Nghyfnod Allweddol (CA) 3 yn Nhorfaen yn 2010 oedd 59.0 y cant, sef safle 19 allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

67 Yn eu harchwiliad o'r DPCau, nododd archwilwyr wendidau yn y broses o ddarparu tystiolaeth i ategu gweithdrefnau dilysu mewn perthynas â gwybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r dangosyddion perfformiad ar gyfer CA2 a CA3. Maent yn argymell gwelliannau i'r gweithdrefnau ar gyfer dogfennu tystiolaeth sy'n sicrhau cywirdeb y DPau.

68 Mae'r Cyngor wedi agor ysgol gynradd newydd yng Nghwmbrân ac mae wrthi'n ailfodelu ysgol ym Mhont-y-pŵl, yn cynllunio mwy o gyfleoedd i gael addysg Gymraeg ac yn gwella cyfleusterau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, mae nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn is na chyfartaleddau Cymru er bod gan 36.7 y cant o'r ysgolion cynradd leoedd gwag sylweddol. Er mwyn ymdrin â materion capasiti a moderneiddio ei ysgolion, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Lywodraeth y Cynulliad o dan y rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif am £280 miliwn sy'n golygu y bydd y Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol o £84 miliwn dros 12 mlynedd. Disgwylir i Lywodraeth y Cynulliad ymateb ddechrau 2011.

## Amcan Gwella - Gwella mynediad i addysg Gymraeg

69 Yn 2009, roedd 20 y cant o boblogaeth Torfaen yn gallu siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig yn is na 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Yn 2010, cafodd 8.4 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol Asesiad Athro mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd CA2 yn 2009-10. Y ffigur ar ddiwedd CA3 oedd 9.9 y cant. Mae'r ddau ffigur yn is na chyfartaledd Cymru.

70 Yn eu harchwiliad o'r DPCau, nododd archwilwyr wendidau yn y broses o ddarparu tystiolaeth i ategu gweithdrefnau dilysu mewn perthynas â gwybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r dangosyddion perfformiad ar gyfer asesiadau athrawon mewn Cymraeg yn CA2 a CA3. Maent yn argymell gwelliannau i'r gweithdrefnau ar gyfer dogfennu tystiolaeth sy'n sicrhau cywirdeb y DPau.

71 Mae'r Amcan Gwella i wella mynediad i addysg Gymraeg yn adlewyrchu'n glir Strategaeth Gymunedol Torfaen, blaenoriaethau Cymru'n Un Llywodraeth y Cynulliad, a Chynllun Plant Unigol y Cyngor. Nodir amserlen prosiect ar gyfer cyflawni'r amcan sy'n gysylltiedig â rhaglen y Cyngor ar gyfer moderneiddio adeiladau ysgolion. Mae'r mesurau o lwyddiant yn ymwneud â chyflawni amserlen y prosiect a chwblhau gwaith adeiladu yn hytrach na chanlyniadau, er bod y wybodaeth ategol ar gyfer yr amcan yn nodi'n glir y rhagwelir twf yn nifer y lleoedd mewn ysgolion Cymraeg a gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'r gallu i fesur effaith gweithgareddau ar fynediad fel canlyniad yn gyfyngedig gan nad oes unrhyw fesurau ar gyfer mynediad nac ansawdd. At hynny, ni cheir unrhyw gyfeiriad at unrhyw effaith fwriadedig ar gyrhaeddiad addysgol fel canlyniad. Dylid cynnwys y rhain, gyda llinellau sylfaen o ran perfformiad cyfredol a thargedau ar gyfer gwella.

72 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr Awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

73 Cafodd y Bwrdd nad yw dogfennaeth etholiadol na gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bellach disgwylir i'r Cyngor lunio cynllun gwella i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Bwrdd hefyd yn poeni am allu'r Cyngor i gynnig rhai gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Disgwylir Cynllun Iaith Gymraeg a Strategaeth Sgiliau Ieithyddol diwygiedig yn ystod y misoedd nesaf er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio gwasanaethau Cymraeg yn well ac ymdrin â'r diffyg data presennol am sgiliau Cymraeg.

## Amcan Gwella - Rhoi cyfleoedd i bobl wella eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth

74 Mae dirywiad diwydiannau traddodiadol yn golygu bod gan Dorfaen y bumed gyfradd diweithdra uchaf o blith ardaloedd cynghorau Cymru, sef bron i 34 y cant, ac mae diweithdra yn Nhorfaen yn cynyddu ar gyfradd uwch na chyfartaledd cynghorau eraill yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2010, roedd 5.0 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yn ddi-waith, yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. Cyfartaledd Cymru oedd 4.3 y cant. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn Nhorfaen yn uwch na chyfartaledd Cymru ond mae wedi gostwng yn raddol ers 2001. Yn 2008 roedd yn 17.1 y cant, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru oedd 14.6 y cant.

75 Mae gwerth ychwanegol crynswth (GYC) yn ffordd o fesur maint economi ardal. Yn 2007, y GYC y pen yn Nhorfaen oedd £11,397, yr ail isaf, ar y cyd ag awdurdod arall, o blith ardaloedd y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Yr enillion wythnosol cyfartalog yn 2009 oedd £507, a oedd yn debyg i gyfartaledd Cymru, ac incwm crynswth

cartrefi a oedd ar gael i'w wario oedd yr isaf, ar y cyd ag awdurdod arall, o blith ardaloedd y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

76 Mae'r Amcan Gwella i wella sgiliau ar gyfer cyflogaeth wedi'i gysylltu'n glir â Strategaeth Gymunedol Torfaen, blaenoriaethau Cymru'n Un Llywodraeth y Cynulliad, Cynllun Corfforaethol y Cyngor a phrosiectau rhanbarthol. Mae'r camau gweithredu i gyflawni'r amcan yn canolbwyntio ar roi prosiectau sy'n bodoli eisoes ar waith, datblygu prosiectau newydd a gwella'r ffordd y caiff prosiectau eu cydgysylltu. Mae mesurau o lwyddiant yn ymwneud â chyfranogiad mewn prosiectau a chynyddu lefelau cyflogaeth. Mae data llinell sylfaen yn dangos bwriad i gynyddu cyfranogiad a lefelau cyflogaeth yn sylweddol. Mae buddiannau cyflawni'r amcan hwn yn amlwg i gyfranogwyr.

77 Mae'r Cyngor yn ategu'r Amcan Gwella hwn gydag amrywiaeth o fentrau a gweithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys sicrhau £3.9 miliwn o gyllid grant o dan y Gronfa Swyddi'r Dyfodol i greu hyd at 600 o swyddi newydd.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

78 Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent a gwasanaethau eraill i geisio canfod pa mor ddiogel yw ei gymunedau a'u gwneud yn fwy diogel. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill megis sefydliadau gwirfoddol i ddeall materion sy'n achosi problemau mewn ardaloedd lleol ac i adeiladu cymunedau cryfach. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ystadegau am nifer y troseddau a'r cwynion y rhoddir gwybod i'r Heddlu a'r Cyngor amdanynt. Mae peth ohoni'n ymwneud â pha mor ddiogel y mae pobl yn teimlo. Yn ôl yr Arolwg Troseddu Prydain, yn seiliedig ar ddata o gyfweliadau am brofiadau pobl o droseddau, cynyddodd cyfradd troseddau Torfaen o 50.53 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2008-09 i 51.87 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Er bod achosion o drais wedi lleihau, cynyddodd achosion o fwrgleriaeth, troseddau rhywiol a throseddau sy'n gysylltiedig â cherbydau. Fodd bynnag, gostyngodd ffigurau troseddau Heddlu Gwent, sy'n seiliedig ar faint o droseddau y rhoddir gwybod i'r Heddlu amdanynt o 9.3 y cant.

79 Mae Arolygwyr Prawf Ei Mawrhydi yn cynnal arolygiadau o waith â throseddwyr ifanc. Ym mis Medi 2010, gwnaethant gyhoeddi adroddiad ar waith gyda throseddwyr ifanc yn yr ardal a gwmpesir gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Archwiliodd y tîm arolygu ansawdd y gwaith a wneir i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, i ddiogelu'r cyhoedd drwy leihau'r perygl o niwed i eraill ac i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r unigolyn yn aildroseddu. Ymhob un o'r meysydd hyn, mae'r tîm yn asesu pa un a oes angen gwelliant bach, cymedrol, sylweddol neu ddifrifol yn y dyfodol agos. Mewn perthynas â'r tri maes hyn, nododd y tîm fod angen gwelliant cymedrol. Yn gyffredinol, daeth y tîm i'r casgliad bod gan Sir Fynwy a Thorfaen ragolygon da yn seiliedig ar aelodau ymroddedig a chymwys o staff wedi'u cefnogi gan reolwyr brwdfrydig a galluog. Gwnaeth y tîm argymhellion ar gyfer gwella, yn arbennig mewn perthynas ag asesu anghenion troseddwyr a chynllunio sut i ymateb iddynt, dogfennu gwybodaeth a chysylltu â thimau troseddwyr ifanc mewn ardaloedd eraill. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth lunio cynllun gweithredu.

### Amcan Gwella - Cynyddu lefelau ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff

80 Yn 2009-10, ailddefnyddiodd a/neu ailgylchodd y Cyngor 23.36 y cant o'i wastraff trefol. O gymharu â chynghorau eraill, safle'r Cyngor oedd 13eg allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, a'r cyfartaledd oedd 24.7 y cant. Yn 2009-10, effeithiodd tywydd garw yn ystod y gaeaf ar gasgliadau gwastraff y Cyngor a gostyngodd y gyfran o wastraff a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi o 49.8 y cant yn 2008-09 i 46.9 y cant yn 2009-10.

81 Mae gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor wedi cyflawni ei dargedau gwastraff yn flaenorol ac mae ganddo gynlluniau hirdymor ar waith i gyflawni rhai ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau i newid y ffordd y darperir gwasanaethau yn anelu at wella perfformiad ac ymrwymir i ddau gontract trin gwastraff hirdymor pwysig ar gyfer gwastraff bwyd/gwyrdd a gwastraff gweddilliol yn ystod y ddwy flynedd nesaf, mewn partneriaeth â chyngor Blaenau Gwent a chyngor Caerffili. Fodd bynnag, mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwastraff y Cyngor yn dibynnu i raddau helaeth ar y gallu i nodi cyllid mewnol ac ar ddarpariaeth grant barhaus gan Lywodraeth y Cynulliad, ac mae'r Cyngor yn poeni y gallai newidiadau i'r symiau ariannol a geir, gofynion a dulliau talu cysylltiedig, gael effaith ddifrifol ar berfformiad a chostau yn y dyfodol.

82 Mae'r Amcan Gwella yn gysylltiedig ag un o themâu'r Strategaeth Gymunedol, Cymru'n Un, y Cynllun Corfforaethol a phrosiectau rhanbarthol. Mae'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth rheoli gwastraff ac yn anelu'n bennaf at adolygu'r dulliau gweithredu a ddefnyddir ar hyn o bryd, felly mae'r gydberthynas rhwng y camau gweithredu a chyflawni gwelliannau i ddinasyddion yn aneglur. Rhestrir chwe dangosydd perfformiad cenedlaethol fel mesurau o lwyddiant. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ar gyfer ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio ond nid oes mesurau penodol ar gyfer lleihau gwastraff. Darperir data perfformiad llinell sylfaen ar gyfer pum dangosydd ond dengys y perfformiad a ragwelir mewn perthynas â'r DPau berfformiad sefydlog fwy neu lai ar bedwar allan o'r chwe dangosydd a dim ond un targed sy'n dangos gwelliant bach iawn. Mae angen gwneud buddiannau'r Amcan Gwella hwn yn glir i ddinasyddion.

## Amcan Gwella - Gwella ein gwasanaethau cynllunio

83 Ffocws yr amcan gwella yw gwella'r gwasanaeth Rheoli Datblygiadau. Yn 2009-10, gwnaed penderfyniad mewn perthynas â 37.5 y cant o geisiadau cynllunio mawr o fewn 13 wythnos. Methodd Torfaen â chyflawni'r targed o 13 wythnos yn amlach na thros hanner holl gynghorau Cymru. O ran ceisiadau cynllunio bach, gwnaed penderfyniad o fewn 8 wythnos mewn perthynas â 35.4 y cant ohonynt. O ganlyniad, Torfaen oedd y Cyngor gwaethaf ond un o blith y 22 o Gynghorau yng Nghymru o ran cyflawni'r targed o 8 wythnos. Datryswyd 54.4 y cant o achosion gorfodi o fewn 12 wythnos o'u derbyn. O ganlyniad, roedd y Cyngor yn y 14eg safle o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru. Nifer y penderfyniadau ar apeliadau am benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a wnaed gan y Cyngor oedd y nifer isaf ond un yn 2008-09 , sef 15. Cyfartaledd Cymru oedd 44.4. O'r apeliadau hyn, nid oedd unrhyw un ohonynt yn ymwneud â chamau gorfodi a chadarnhaodd 73.3 y cant ohonynt benderfyniad gwreiddiol y Cyngor, y trydydd nifer uchaf o blith y 22 o Gynghorau yng Nghymru.

84 Gan fod y camau gwella yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd o fewn y system gynllunio, nid yw'r buddiannau sy'n deillio o'r gweithgarwch hwn i ddinasyddion wedi'u nodi'n glir. Ni ddarperir gwybodaeth llinell sylfaen am y lefelau effeithlonrwydd presennol ac ni nodwyd mesurau ar gyfer llwyddiant. Ni chyfeirir at elfennau o'r system gynllunio sy'n ymwneud â gorfodi na rheoli adeiladau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac nid yw'r wybodaeth ategol yn cyfeirio at agweddau ar y broses gwneud cais a allai ddylanwadu ar hyd y broses, megis dirprwyo ac ymweliadau safle.

# Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei wneud?

85 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

86 Yn seiliedig ar ein gwaith, rydym o'r farn bod angen i'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella:

**Cynigion ar gyfer gwella a wnaed gennym yn ein gwaith cynharach:**

- gwerthuso effeithiolrwydd rôl y Cyngor mewn partneriaethau;
- ffurfioli'r broses cynllunio ariannol tymor canolig a chyhoeddi'r strategaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a rheoli asedau er mwyn cefnogi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor;
- gweithredu rhaglen sy'n ymgorffori rheoli perfformiad ym mhrosesau rheoli gweithredol yr holl wasanaethau;
- rhoi hyfforddiant ar waith i helpu aelodau dibrofiad i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol; a
- hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio fel y gall gyflawni ei gylch gwaith yn fwy effeithiol o ran cyfrifoldeb statudol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus mewn perthynas â'i swyddogaethau.

**Cynigion newydd**

Dylai'r Cyngor wneud fel a ganlyn:

- cyhoeddi ei amcanion gwella nesaf yn gynnar yn y flwyddyn ariannol a sicrhau bod ei Adroddiad Gwella ar gael yn hawdd i'r cyhoedd yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad;
- egluro effaith ei amcanion gwella o ran y buddiannau y mae am eu cyflawni i ddinasyddion a sicrhau ei bod yn bosibl eu cyflawni o ystyried gostyngiadau mewn adnoddau;
- datblygu mesurau llwyddiant a ategir gan wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd, beth yw ei dargedau, dadansoddiad o gost a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill;
- nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn; a
- sicrhau y caiff y dull o bennu Amcanion Gwella, sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, ei gymhwyso i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar amrywiaeth llawn swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Mehefin 2009) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau.' Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[7].

7 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn canfod a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol; ac
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn/allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunwyd arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Dorfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Aelodau'r Cynulliad dros Dorfaen yw:

- Lynne Neagle, Torfaen, Llafur
- Nick Ramsey, Trefynwy, Ceidwadwyr
- Irene James, Islwyn, Llafur

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain De Cymru yw:

- Mohammad Asghar, Ceidwadwyr
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- Veronica German, Democratiaid Rhyddfrydol
- William Graham, Ceidwadwyr

Yr Aelodau Seneddol dros Dorfaen yw:

- Paul Murphy, Torfaen, Llafur
- David Davies, Trefynwy, Ceidwadwyr

Ceir 44 o Gynghorwyr yn Nhorfaen sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 18 o'r Blaid Lafur
- 13 o Aelodau Annibynnol
- 5 Ceidwadwr
- 3 o Blaid Cymru
- 2 Ddemocrat Rhyddfrydol
- 3 Llais y Bobl

Ceir Cabinet (sy'n cynnwys yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a saith Aelod Gweithredol) sy'n gyfrifol am swyddogaethau a phenderfyniadau 'gweithredol' y Cyngor (o fewn y fframwaith polisi a chyllideb cyffredinol a bennir gan y Cyngor).

Yn 2008-09, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £201 miliwn, sydd gyfwerth â £2,211 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £18 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn Nhorfaen oedd £1,108.10 y flwyddyn, a fydd yn cynyddu 3.36 y cant i £1,145.38 y flwyddyn ar gyfer 2010-11.

Mae 85 y cant o dai Torfaen o fewn bandiau treth gyngor A i D.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.torfaen.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010:

**Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda a threfniadau partneriaeth cadarnhaol ac mae'n cymryd camau i sicrhau y caiff ei feddylfryd strategol ei droi'n gamau gweithredu prydlon ac effeithiol mewn amgylchedd ariannol heriol.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae arweinyddiaeth sefydlog y Cyngor wedi helpu i sicrhau y caiff dewisiadau polisi anodd eu rhoi ar waith ond nid yw'r meddylfryd strategol bob amser wedi arwain at y buddiannau arfaethedig i breswylwyr.

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd ac wedi gwneud cynnydd mewn meysydd anodd.

Ceir heriau o ran diwallu anghenion y cymunedau lleol.

Mae'r Cyngor yn newid sut y mae'n trefnu ei hun er mwyn darparu gwasanaethau mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol difrifol.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae arweinyddiaeth a threfniadau partneriaeth y Cyngor yn gryfderau penodol ond nid yw agweddau eraill ar sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn trefnu yn cefnogi gwelliant yn gyson.

Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda sy'n chwarae rhan gref yn y broses o gefnogi gwelliant.

Mae ymrwymiad y Cyngor i weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol.

Mae trefniadau llywodraethu wedi gwella ac yn datblygu er mwyn ateb heriau'r dyfodol.

Mae polisi a strategaeth, rheoli risg a rheoli prosiect yn gwella ac mae'r Cyngor wedi nodi meysydd eraill i'w datblygu.

Mae gan y Cyngor ffocws tymor canolig o ran y defnydd priodol o adnoddau a gaiff ei atgyfnerthu ymhellach pan fydd cynlluniau rheoli ariannol a rheoli asedau ar waith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n rheoli perfformiad nac yn cynllunio'r gweithlu'n gyson dda hyd yn hyn ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â hyn.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos.**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 28 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Cynhyrchwyd cyfrifon 2009-10 i safon dda gan fodloni'r holl derfynau amser statudol. Roedd y Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau a gyflwynwyd gan SORP 2009 yn ogystal â'r gwelliannau a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nodwyd y materion allweddol canlynol yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon ac fe'u trafodwyd gyda'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:

- nid oedd y gofrestr asedau sefydlog yn gyson â'r cyfriflyfr ariannol;
- nid oedd cofnodion sylfaenol i ategu'r ychwanegiadau TG a gofnodwyd yn y datganiad cyfrifon.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y mater canlynol:

- mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig ffurfiol yn datblygu'n dda yn erbyn cefndir o heriau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11, sef ei Gynllun Corfforaethol, yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009. Fodd bynnag, er bod y Cyngor wedi cynnwys y Cynllun hwn gyda phapurau agenda'r Cyngor, a gyhoeddwyd ar ei wefan cyn y dyddiad terfyn o 31 Hydref 2010, nid oedd yn hawdd cael gafael arno. Dylai'r Cyngor sicrhau yr ymdrinnir â hyn yn y dyfodol.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2010.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 fod yn unol â'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Barrie Morris (Grant Thornton UK LLP)

Dros ac ar ran yr archwilydd penodedig
29 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Cymunedol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.torfaen.gov.uk. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- helpu pobl fregus i aros yn eu cartrefi;
- gwella'r ffordd y byddwn yn cyflwyno ein grantiau cyfleusterau i'r anabl;
- gwella mynediad i addysg Gymraeg;
- cynyddu lefelau ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff;
- rhoi cyfleoedd i bobl wella eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth;
- gwella ein gwasanaethau cynllunio.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Cymerwyd yr holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella yr Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol